# Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y **9fed o Ebrill 2026** yng Nghanolfan Gymdeithasol Golan.

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Presennol: | Richard Williams (Cadeirydd), Enid Egginton, Clifford Williams, John Jones (Garndolbenmaen), Raymond Jones, Huw Pritchard (Pentrefelin) Gwilym Evans (Prenteg), John Till, Megan Lloyd Williams (Golan), Edward Evans (Bryncir), Cynghorydd Stephen Churchman, June Jones (Cyngor Gwynedd) |
| 2. | Ymddiheuriadau: | Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa), Richard Parry (Bryncir), Iddon Edwards (Penmorfa) |
| 3. | Ddim yn bresennol: | Neb |
| 4. | Datgan Buddiant: | GE – Eitem 13<br>MLW – Eitem 13<br>RJ – Eitem 13<br>SCH 0 Eitem 13 |
| 5. | Cywirdeb y cyn-gofnodion : | CW yn cynnig a HP yn eilio. Pawb yn cydweld. |
| 6. | Materion yn codi o'r cyn-gofnodion: | **Camfeydd a Llwybrau Craig Garn –** Cynhaliwyd cyfarfod buddiol ar Graig Garn rhwng CW, JJ a Jack Peyton (Uwch Warden Mynediad Eryri) ar 2 Ebrill. Tywyswyd Jack o amgylch y Graig; mae llawer o lwybrau wedi cau ac angen penderfyniad ar eu hailagor. Clerc i wahodd Jack i'r cyfarfod mis Mehefin i barhau gyda'r trafodaethau.<br><br>**Pentrefelin –** Cyfarfod buddiol rhwng RJ ac Adran Priffyrdd/YGC i drafod difrod sydd yn cael ei achosi gan ddŵr yn llifo o Tŷ'n Llech. Cytunwyd y byddai'r Adran Priffyrdd yn clirio'r ffoes a gwaredu deunydd y nghyfer y gwely, ac yn darparu gwli ffordd newydd uwchben Llys Cynhaearn i wyro dŵr i'r ffoes. Gohebu gyda thirfeddiannwr am gyflwr wal cerrig a gordyfiant sy'n effeithio ar y ffoes. Cadarnhawyd nad yw'r trac o'r eglwys i'r briffordd wedi'i fabwysiadu gan Briffyrdd Dwyfor, ond bod statws hawl tramwy cyhoeddus, efallai gall yr Uned Llwybrau helpu. Cytunwyd i lanhau'r gwli ar geg y trac pan fydd gwaith tebyg yn digwydd.<br><br>**Gwaith Mynwent Golan –** Contractwr wedi bod yn Mynwent Bethel heddiw i gychwyn y gwaith atgyweirio ar y sied. Mae'n gobeithio mynd yn ôl wythnos nesaf i orffen y gwaith. |
| 7. | Mynwentydd: | Clerc i argraffu arwyddion i'r mynwentydd yn gofyn wrth bobl fynd a'u gwastraff adref gyda hwy. |
| 8. | Llwybrau Cyhoeddus: | Gwaith llwybr 105 dal heb ei orffen. Clerc i holi am ddiweddariad.<br><br>Cwyn wedi'i dderbyn gan aelod o'r cyhoedd bod yna giât yn creu rhwystr ar lwybr Bryn Moel. Mae'r llwybr wedi'i archwilio ac ni welwyd bod y giât yn creu unrhyw rwystr. |
| 9. | Adroddiad Pentrefi: | **Pentrefelin –** Dim i'w adrodd<br><br>**Golan –** Adroddwyd bod yna broblem gyda ffonio Galw Gwynedd i dalu am wasanaethau dros y ffôn. Y Cyng. Stephen Churchman |

| | | |
|---|---|---|
| | | am gysylltu â'r Rheolwr i weld beth yw'r broblem ac i geisio cael ei ddatrys.<br><br>**Garndolbenmaen –** Bin newydd wedi cael ei ddarparu ar gyfer eiddo yn y pentref ond nid ydynt wedi mynd ar hen fin oddi yno. Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd.<br><br>**Bryncir –** Mae yna waith adnewyddu ffordd neu lenwi bylchau yn cael ei wneud o Pencaenewydd i fyny am Fwlch Derwin. Clerc i gysylltu i weld os oes bwriad i wneud y ffordd i gyfeiriad Bryncir hefyd.<br><br>**Prenteg -** Nodwyd bod nifer sylweddol o eiddo gwyliau yn y gymuned yn wynebu anhawster wrth gyrraedd y trothwy o 182 diwrnod sy'n ofynnol i dalu treth annomestig yn lle treth y cyngor, ac mae'r gofyniad hwn yn parhau i fod allan o gyrraedd i lawer o berchnogion. Soniwyd fod y tai yn llawn yn ystod gwyliau ysgol ond yn wag rhwng yr amseroedd yma rhan amlaf. Gofynnwyd beth yw'r drefn o fonitro hyn. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Drethi am wybodaeth.<br><br>**Penmorfa –** Dim i'w adrodd |
| 10. | Cyfrif Cadw | Penderfyniad i agor cyfrif cadw gyda **Hampshire Trust Bank (HTB).** CW yn cynnig a GE yn eilio. Pawb yn cydweld. Clerc i weithredu. |
| 11. | Safle Bws Bryncir | Derbyniwyd Adroddiad Diogelwch Ffordd – Cam 2 gan Alfie Waiting o Ymgynghoriaeth Gwynedd er mwyn ei adolygu. Dengys yr adroddiad bod y sefyllfa yn gymhleth ac nad oes ateb hawdd ar gael. Awgrymwyd y dylai'r Clerc drefnu cyfarfod safle pellach i allu trafod y mater ymhellach. |
| 12. | Difrod Safle Bws Garndolbenmaen | Ar ddydd Llun, 30ain o Fawrth, cafwyd difrod bwriadol i'r lloches bws ger y neuadd yng Ngharndolbenmaen. Defnyddiwyd morthwyl i dynnu'r *render* mewn sawl man. Mae'r mater wedi'i adrodd i'r heddlu. Nododd y Clerc fod yr Heddlu wedi cysylltu, ond bod y swyddog perthnasol ar absenoldeb hyd at 13eg Ebrill. Byddwn yn aros am ymateb pellach gan yr heddlu ac mae hefyd angen trefnu clirio'r rwbel. Bydd y Clerc yn ymdrin â'r trefniadau priodol. |
| 13. | Offer Fideo-gynadledda | Penderfynwyd y bydd y neuaddau yn gyfrifol am reoli'r offer fideo-gynadleddau newydd. Bydd angen iddynt sicrhau bod yswiriant priodol ar waith ac y mae'n ofynnol iddynt lunio canllawiau defnydd ar gyfer yr offer. Gofynnir i'r clerc anfon llythyr at bob neuadd i gadarnhau'r penderfyniad hwn. |
| 14. | Grant Gwynedd Ni | Mae grant o £7,000 ar gael i Gymuned Dolbenmaen. Gofynnir i bawb ystyried syniadau ar gyfer ymgeisio am y grant hwn cyn y cyfarfod nesaf. |
| 15. | Dyddiad a Lleoliad Cyfarfod Blynyddol a Misol Mai | Cynhelir y cyfarfod blynyddol a misol Mai yn y Ganolfan ym Mhrenteg. Gall pobl hefyd ymuno'n rhithiol. Bydd y cyfarfod ar 14 Mai am 7yh. |
| 16. | Gohebiaeth | Dim |
| 17. | Gohebiaeth Ychwanegol | a. Unllais Cymru – Hyfforddiant Mawrth – Mehefin<br>b. Unllais Cymru – Hyfforddiant am ddim Clercod a |

| | | |
|---|---|---|
| | | Chadeiryddion. Adroddodd y Clerc ei bod wedi cofrestru i fynychu'r hyfforddiant yma ddydd Llun y 13eg o Ebrill. |
| 18. | Cynllunio | Rhestrau: 2/3, 9/3, 16/3, 23/3 a 30/3<br><br><u>Ceisiadau Cynllunio</u><br><br>**C25/0853/36/LL –** Llystyn Gwyn, Bryncir, Garndolbenmaen – Cais ôl weithredol i godi adeilad amaethyddol i gadw defaid dros y Gaeaf. **Dim gwrthwynebiad.**<br><br>**NP2/16/AD472A –** Parc Gwyliau Aberdunant – Caniatâd Hysbyseb i osod un llechen parhaol ar y llawr. **Oherwydd bod yr arwydd i fyny yn barod, does dim gwrthwynebiad.** |
| 19. | Materion Ariannol | <u>Ceisiadau am arian</u>: **Dim**<br><br><u>Monitro'r gyllideb</u> : **Dim gorwariant**<br><br><u>Biliau i'w talu</u><br><br>Cyflog Clerc £347.32<br>Ffôn £ 15.00<br>Cyfrifiadur £ 20.00<br>HMRC £ 87.96<br>Unllais Cymru £293.00<br>Pugh Computers Ltd £7,440.02<br>Abermaw Locksmiths £ 80.00<br>Cae Chwarae Penmorfa (Jap.Knotweed) £ 100.00<br><br>**** Cymeradwywyd i dalu'r uchod ****<br><br><u>Derbyniadau</u><br><br>Cyngor Gwynedd (Grant Gwynedd Ni) £6,280.02<br>Pritchard a Griffiths £ 340.00<br><br><u>Balansau Cyfrifon Banc</u><br><br>Cyfredol: £2,489.43<br>Cadw: £30,890.00 |
| 20. | Dewis Gohebiaeth i'r Wasg/Wefan | Difrod Safle Bws Garndolbenmaen<br>Safle Bws Bryncir<br>Grant Gwynedd Ni<br>Cyfarfod Blynyddol |